

CYFARFOD	Y PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD	14 MEDI 2026
TEITL	DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
PWRPAS	I dderbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru
ARGYMHELLIAD	DERBYN A NODI'R WYBODAETH
AWDUR	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Dyma adroddiad rheolaidd sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ar y gwaith a wnaed gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar ran yr wyth cronfa CPLIL yng Nghymru.

Cyfarfu corff gwneud penderfyniadau PPC, y Cyd-bwyllgor Llywodraethu (CBLI), yn ffurfiol ddiwethaf ar 15 July 2026.

2. DIWEDDARIAD CHWARTEROL CYD- BWYLLGOR LLYWODRAETHU

Mae'r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o'r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Roedd yr eitemau a drafodwyd yn cynnwys y canlynol:

- Ffurflen Flynyddol 2025/26
- Cadarnhad bod WPP IM Co wedi derbyn y llythyr 'Minded to Approve' gan yr FCA
- Diweddariad Buddsoddi Cyfrifol
- Adolygiad o'r Polisi Risg a'r Gofrestr Risg

Mae'r Cynllun Busnes ar gyfer 2025/26 wedi'i adolygu a gellir dod o hyd iddo yn Atodiad 2.

3. DIWEDDARIAD GWEITHREDWR

Mae copi o'r diweddariad chwarterol diweddaraf gan y gweithredwr wedi'i atodi o dan Atodiad 3.

Mae'r diweddariad yn rhoi cipolwg ar yr ystod lawn o is-gronfeydd buddsoddi WPP ar 31^{ain} Mawrth 2026.

Ar hyn o bryd mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd amlygiad i saith o'r deg is-gronfa ac ar 31^{ain} Mawrth 2026, roedd gwerthoedd a chanran yr is-gronfa fel a ganlyn:

- Cyfleoedd Byd-eang - £403.9m (11%)

- Twf Byd-eang - £389.5m (10%)
- Marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg - £82.7m (23%)
- Credyd Aml-Asedau - £259.4m (27%)
- Bond Enillion Absoliwt - £554.3m (68%)
- Cronfa Credyd Byd-eang - £347.9m (26%)
- Y Gronfa Ecwiti Cynaliadwy - £359.7m (21%)

6. ADRODDIADAU PERFFORMIAD AR 31ain MAWRTH 2026

Mae'r adroddiadau perfformiad i'w gweld yn Atodiad 4.

Syrthiodd Mynegai Net y Byd MSCI 3.6% (USD) mewn chwarter cyfnewidiol ar gyfer ecwiti. Fe wnaeth momentwm positif ym mis Ionawr a Chwefror droi'n negyddol yn sydyn ym mis Mawrth yn dilyn ymosodiadau milwrol yr Unol Daleithiau ar Iran, a berodd i ddatblygiadau geo-wleidyddol ddylanwadu ar deimlad y farchnad. Y DU oedd y farchnad a berfformiodd orau ac yna Japan a Canada. Roedd Asia a marchnadoedd sy'n datblygu hefyd yn well na'r mynegai byd-eang. Yr Unol Daleithiau a berfformiodd waethaf oherwydd pryderon am variant cyfalaf ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd artiffisial (AI) a'u dylanwad aflonyddgar posibl. Fe wnaeth tensiynau geo-wleidyddol cynyddol ynghyd â mwy o ansicrwydd dros bolisi masnach yr Unol Daleithiau ychwanegu at nerfusrwydd y farchnad a chryfhau'r teimlad "gwerthu'r Unol Daleithiau". Cynyddodd prisiau olew yn raddol, gan wedyn godi'n aruthrol ar ôl streiciau'r Unol Daleithiau ar Iran. Wedi hynny cafwyd penawdau yn gwrthddweud ei gilydd, a berodd i'r prisiau crai fynd yn anwadal ac arwain at bryderon eang am yr effaith economaidd. Cyrhaeddodd aur uchafbwynt ym mis Ionawr, gan dorri'r drwy'r terfyn \$ 5,000 fesul owns troy, ond gostyngodd yn sydyn tuag at ddiwedd y chwarter wrth i ddisgwyliadau am doriadau cyfradd pellach leihau. Fe wnaeth y Gronfa Ffederal, Banc Canolog Ewrop, Banc Lloegr, Banc Canada a Banc Japan adael y cyfraddau llog heb newid. Fe wnaeth Reserve Bank Awstralia godi cyfraddau am y tro cyntaf mewn dwy flynedd.

Yn y DU, golygai ansicrwydd gwleidyddol fod enillion gilt yn anwadal yn sgil y sibrydion am her arweinyddiaeth bosibl i'r Prif Weinidog Keir Starmer. Yn ddiweddarach, dringodd enillion gilt oherwydd bod disgwyl i gyfraddau llog godi wrth i brisiau ynni godi'n aruthrol ar ôl cau Culfor Hormuz. Roedd yr effaith yn fwy na marchnadoedd datblygedig eraill oherwydd y bu disgwyl i'r BoE ostwng cyfraddau ymhellach na banciau canolog eraill. Torrodd enillion gilt 10-mllynedd y DU y marc 5.0% yn ddiweddarach ym mis Mawrth, gan gyrraedd yr uchaf ers mis Gorffennaf 2008 wrth i fasnachwyr dybio y byddai cyfres o godiadau cyfradd, hyd at bedwar, eleni. Yn y cyfamser, dangosodd data ffres fod twf economaidd yn fflat ym mis Ionawr o gymharu â rhagolwg y farchnad o dwf o 0.2% a chynnydd o 0.1% ym mis Rhagfyr. Roedd y canlyniad hwn yn bennaf oherwydd gweithgarwch is y sector gwasanaeth. Gostyngodd chwyddiant pennawd i 3.0% FlarFI ym mis Ionawr (o 3.4%) ac ni wnaeth newid ym mis Chwefror. Mewn mannau eraill, er bod PMIs Ionawr a Chwefror wedi cryfhau gan ddangos y gallai eglurder yn dilyn y Gyllideb ym mis Tachwedd fod wedi rhoi hwb i weithgarwch busnes, dangosodd data rhagarweiniol ar gyfer mis Mawrth fod twf yn arafu mewn gweithgynhyrchu a gwasanaethau. Dros y chwarter dringodd yr enillion ar giltiau 10-mllynedd 44 bps i 4.92%.

5. DIWEDDARIAD WPP IM Co

WPP IM Co yw'r cwmni rheoli buddsoddiadau ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ac fe'i sefydlwyd ym mis Awst 2025, gyda Rob Lamb wedi'i benodi'n Brif Swyddog Gweithredol ym mis Medi 2025.

Rhoddodd Rob Lamb ddiweddariad ar gynnydd (Atodiad 5) yn crynhoi'r hyn y mae'r cwmni wedi'i gyflawni ers mis Medi 2025 mewn perthynas â Llywodraethu, Pobl a Gweithrediadau.

6. ARGYMHELLIAD

I dderbyn a nodi'r wybodaeth.